

Buddsoddi mewn lleoliadau gwaith i bobl ifanc mewn treftadaeth naturiol

20/07/2022



Groundwork Cheshire, Prentisiaid Ifanc Swydd Gaerhirfryn a Glannau Mersi: (o'r chwith i'r dde) Samuel Gibson, Billy Hunt, Sam Phillips a Mia Francis. Credyd: Mark Waugh
Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Groundwork UK i ddarparu lleoliadau gwaith cyflogedig sy'n seiliedig ar natur i bobl ifanc – gan arallgyfeirio'r sector a chreu etifeddiaeth naturiol i nodi Jiwbilí Platinwm y Frenhines.

Bydd y rhaglen [Newydd i Natur](#) yn creu swyddi llawn a rhan-amser mewn sefydliadau natur a thirwedd ledled y DU ar gyfer pobl ifanc 18–25 oed. Bydd tua 70 o leoliadau ar gael.

Wedi'i ddarparu gan Groundwork UK – mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog, Disability Rights UK, Mission Diverse a Youth Environmental Service – mae New to Nature ar gyfer pobl ifanc nad ydynt efallai wedi ystyried gyrfa mewn treftadaeth naturiol ac sydd angen cymorth ychwanegol i ddod o hyd i waith yn y sector.

Agor treftadaeth naturiol i bobl ifanc

Nid yw llawer o bobl ifanc yn gweld y sector fel eu dewis cyntaf o yrfa, naill ai am nad yw'r rolau sydd eu hangen yn weladwy iddynt neu eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu.

Graham Duxbury, Prif Weithredwr Groundwork UK

Bydd y rhaglen, a fydd yn ar gael tan fis Mai 2024, yn darparu lleoliadau o hyd at 12 mis i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig sy'n ei chael hi'n anodd ymuno â'r farchnad swyddi.

Bydd y sector tirwedd a natur yn dod yn fwy cynhwysol ac amrywiol, gan **adeiladu rhwydwaith o hyfforddeion jiwbilf ledled y DU i hyrwyddo mwy o amrywiaeth a llais ieuenctid yn y sector**, gan annog newid yn y tymor hwy.



Mae'r rhaglen yn cynnig amrywiaeth o leoliadau sy'n seiliedig ar natur. Credyd: Mark Waugh

Dywedodd Simon Thurley, Cadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Mae'r Gronfa Treftadaeth yn falch iawn o lansio Newydd i Natur / New to Nature, a fydd yn wirioneddol drawsnewidiol i lawer o bobl ifanc yn ogystal â'r sefydliadau y maent yn gweithio iddynt. Rydym yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Groundwork UK ac Ymddiriedolaeth y Tywysog, sy'n fedrus wrth estyn allan at bobl ifanc, i sicrhau y bydd y prosiect hwn yn gadael gwaddol naturiol gref a pharhaol ac yn newid y sector treftadaeth naturiol er gwell."

Ychwanegodd Graham Duxbury, Prif Weithredwr Groundwork UK: "Nid yw llawer o bobl ifanc yn gweld y sector fel eu dewis cyntaf o yrfa, naill ai am nad yw'r rolau sydd eu hangen yn weladwy

iddynt neu eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu. Rydym yn gwybod y gall cynnig lleoliadau â thâl â chymorth i bobl ifanc fod yn ffordd hynod effeithiol o ehangu mynediad i gyfleoedd a darparu cam tuag at rolau parhaol."

Buddsoddiad Jiwbilî'r Loteri Genedlaethol

Newydd i Natur yw ail gyfran y buddsoddiad etifeddiaeth Jiwbilî gwerth £7m a [gyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd](#). Lansiodd y gyfran gyntaf, [Nextdoor Nature](#) – rhaglen gwerth £5m o brosiectau ail-rewi a arweinir gan y gymuned a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaethau Natur – ym mis Mawrth. Mae'r ddau yn rhan o gyfanswm buddsoddiad o £22m gan y Loteri Genedlaethol i nodi Jiwbilî'r Frenhines.



Tîm Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Llundain yn lansiad Nextdoor Nature: Nikki Williams, Bobbi Benjamin-Wand, Emily Fox a Chantelle Lindsay. Credyd: Broni Lloyd-Edwards

Ydych chi'n sefydliad natur a thirwedd?

Os ydych yn gyflogwr sydd â diddordeb mewn darparu lleoliadau, gallwch ddarganfod mwy a [gwneud cais ar wefan Groundworks UK](#).

Ffyrdd eraill o gymryd rhan

Cofrestrwch ar gyfer ein [cylichlythyr](#) a dilynwch ni ar y [cyfryngau cymdeithasol](#) i ddysgu mwy am y mentrau Newydd i Natur a Nextdoor Nature.

Oes gennych chi syniad ar gyfer eich prosiect treftadaeth naturiol eich hun? Gallwch wneud cais drwy ein [Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#).



ddordeb hefyd mewn ...

[Simon Thurley, Cadeirydd y Gronfa Treftadaeth, yn cerdded rhwng Chantelle Lindsay a Bobbi Benjamin-Wand, o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Llundain, ym Mharc Naturiol Camley Street yn Llundain. Delwedd © Broni Lloyd-Edwards.](#)



nd i'r afael â newid yn yr hinsawdd



hymunedau ar gyfer jiwbili'r Frenhines

Exploring Trinidad and Tobago's natural heritage at Fort George, Port of Spain.

Breaking down barriers to nature for young Black people